

Trosolwg o'r aseiniad

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM

Teitl: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfrwyr) sy'n cyfleu adfyfrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw: Charlotte Doyle

Rhif myfyriwr: 1903162

Llwybr: TAR Uwchradd

Linc i'r llyfryn OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1903162_student_uowtsd_ac_uk/EiRzt-ojQGBFv8aNdIbgFKYBQsC6mnPlzuqyLQnU0i6Sig?e=kuM8Y7

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Prawf-ddarllena dy waith yn fwy trylwyr, gan ddefnyddio Cysill i wirio dy iaith.	Prawf ddarllen fy ngwaith wrth ddefnyddio Cysill. Edrychais hefyd ar y camgymeriadau wnes i yn yr aseiniad cyntaf i weld os dwi wedi gwneud yr un peth eto.
Targed 2	Datblyga feirniadaeth yn hytrach nag ysgrifennu disgrifiadol. Gellir gwneud hyn drwy wneud cysylltiadau cyson at y llenyddiaeth.	Credaf rwyf wedi datblygu beirniadaeth trwy gysylltu'n gyson at lenyddiaeth yn fy aseiniad er enghraifft dwi wedi ategu fy rhesymau dros ddefnyddio rhai strategaethau addysgu gyda theori.
Targed 3	Gofala dy fod yn cymhwyso theori i bob agwedd ar dy waith. Mae yna enghreifftiau o hyn yn dy waith, ond mae angen ei wneud yn fwy cyson.	Rwyf wedi gwneud llawer o ymdrech i gynnwys llenyddiaeth gyson yn fy aseiniad trwy sicrhau bod pob egwyddor addysgeg gydag amrywiaeth o lenyddiaeth i drafod a chymharu.

Asesu ar gyfer Dysgu

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM

Enghraifft 1



Cynllun
Gwers AA...
Bl.8 Gwers y Aseiniad

Maini Prawf Llwyddiant			
Tasg Treathawd INC:			
A! Harri Tudur oedd yn haeddu ennill Brwydr Bosworth			
Rhaid:			
Dilyn y ffurff INC			
3 awgrym i nodi fed Harri Tudur yn haeddu ennill			
3 awgrym i nodi mai Richard III oedd yn haeddu ennill			
Rhesymau i gefnogi eich barn			
Tystiolaeth i gefnogi eich barn			
Cofio treigl'n feddal ar ôl i ac o.			

Gwers Hanes Blwyddyn 8 - 14/11/2019

Ffocws yn y wers yma gyda blwyddyn 8 oedd cyflwyno'r aseiniad. Fe wnes i gynnwys amrywiaeth o strategaeth Asesu ar gyfer Dysgu i sicrhau bod pawb yn barod i ddechrau'r aseiniad a hyd yn oed sut i gael y marciau uwch trwy greu taflen meini prawf llwyddiant. Nododd EEF (2019) i gael effaith uchel ar ddysgu'r disgyblion rhaid rhoi adborth effeithiol. Fel gwelir o'r cynllun gwers, gwiriais yn barhaus trwy fynd dros bob paragraff cam wrth gam. Yn ogystal, rhoddais daflen meini prawf llwyddiant i'r plant gael o flaen nhw wrth ysgrifennu'r aseiniad er mwyn hatgoffa beth sydd rhaid cynnwys. Wnaeth hyn datblygu gweithio'n annibynnol oherwydd roedd yn lan i'r disgyblion i ddilyn y ffyrdd er mwyn cael y marciau uwch. Ar ôl gorffen esbonio, wnes i ofyn i'r disgyblion rhoi eu bodiau i fyny os oedd nhw'n deall popeth neu i lawr os oedd angen mwy o help. Roedd hyn yn dda oherwydd i'r rhai oedd yn barod i ddechrau gallant nhw barhau gyda'r aseiniad tra bod i mi esbonio i eraill. Serch hynny, rhaid cofio dydy pawb pob amser ddim mynd i ddweud dydyn nhw ddim yn deall am resymau personol felly byddaf yn y dyfodol cerdded o gwmpas y dosbarth er mwyn weld gwaith y disgyblion. Gallaf hefyd dewis ar hap i ddisgybl ateb cwestiynau yn lle aros i blentyn gwirfoddolwch i ateb.

Enghraifft 2



Gwers Hanes Blwyddyn 8 – 7/11/2019

Ddechreuais y wers yma trwy herio'r disgyblion gyda gwybodaeth flaenorol. Gofynnais iddyn nhw i ysgrifennu 3 pheth ddysgon nhw'n o wers ddiwethaf. Wrth wneud hyn gwelais y sefyllfa roedd pob disgybl mewn ynglŷn â beth roeddwn nhw'n ddeall sydd wedyn yn helpu mi i wybod os rhaid i mi ail hatgoffa unrhyw beth yn y wers neu symud ymlaen. Wnes i hyn oherwydd fel nododd Black et al (2003) mae asesiad ffurfiannol yn caniatáu'r athro i addasu'r gweithgareddau addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid oedd pawb yn gwirfoddoli i roi eu hateb efallai am resymau fel hyder neu doeddwn nhw ddim yn gallu cofio unrhyw beth. Er roedd hyn yn ddull da, i osgoi'r un bobl ateb yn y dyfodol byddai'n dewis pobl ar hap i ddweud beth ysgrifennon nhw. Trwy wneud hyn byddai'n gweld mwy o amrywiaeth o ymatebion y dosbarth a rhoi cyfle i bawb cyfrannu.

Amser	Gweithgareddau/Met hodgeleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Dosbarthu 'nodiadau sticky' i bob disgybl wrth ddweud rhaid rhoi 3 pheth ddysgoch yn y wers diwethaf Dewis rhai disgyblion i ddweud eu hateb er mwyn trafod yn y dosbarth.	Rhaid i'r plant ysgrifennu 3 pheth ddysgon nhw yn y wers diwethaf. Bydd y plant yn dechrau meddwl am fuddugoliaeth Harri er mwyn paratoi nhw am weddill y wers.	PwyntPwer, nodiadau sticky I&D: Sicrhewch fod bagiau i ffwrdd o dan fyrdau.


Enghraifft 3

Gwers Hanes Blwyddyn 8 – 12/11/2019

Wrth i PAP datblygu dwi'n ceisio cerdded o gwmpas y dosbarth er mwyn asesu'r disgyblion trwy weld nhw ar y dasg. Trwy wneud hyn gallaf hefyd gweld os mae rhai'n cael trafferth neu rhai sy'n gorffen yn gynnar. Wrth addysgu ac arsylwi gwersi dwi wedi gweld pa mor bwysig yw hyn i weld cynnydd y disgyblion. Wrth gerdded o gwmpas hefyd gallaf holi cwestiynau agored a chaeedig i'r disgyblion er mwyn gweld eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc. Ymhellach yn y wers fe wnes i roi amserydd ar y bwrdd – wnaeth hyn annog y disgyblion i gwblhau'r dasg a rhoi ffocws arnynt. Roedd hyn yn ddull da i ddefnyddio er mwyn cadw pawb ar dasg. Pwysleisiodd Brenda Kosky Deskin (2013) pwysigrwydd y dull yma wrth nodi mae rhai plant yn aml anghofio beth sydd rhaid cyflawni neu golli trywydd amser felly gall amserydd ar y bwrdd y datrysiad delfrydol ar gyfer aros ar y dasg.

Dydd Mawrth, Tachwedd 12fed
Gwers 2 - 8 Ysthyg
Tasg gynhyrpol ar y bwrdd wrth i'r disgyblion gerdded.
Mab y gofredd gan wisio os mae gwaith arfer wedi ei wneud.
Cwestiynau da wrth ymateb i'r cwestiynau a gyflwynwyd yn y dasg gynhyrpol.
Tia llawer mwy hyderus gyda'r dosbarth ac yn deall y gwaith ac yn gae wedi cynhyrio beth mae rhai myd i ddwedd.
Dylen yn dosbarthu'r dafan.
Tymu sylw parhau i sebonio'r dasg.
Cael disgybl i roi enghraifft o aleb.
Tymu sylw disgyblion rble mae'r alebion i'n helpu yn eu llyfrau.
Amserydd ar y bwrdd 10 munud.
Sgwrs yn dda oamgylch y dosbarth os mae disgyblion deim y oger helpu aethyner da i geisio arwain rhwng y alebion.
Esbonio'r asainod.
Mud trwy'r cyflwyniad, i.e. na, ceisried.
Beth an ei rannu ar gyfer y dosbarth.
Esbonio cyflwyniad ar yna ei ystyfennu.

Enghraifft 1



Gwers Hanes Blwyddyn 8 - 5/12/2019

Yn y wers yma fe wnes i ffocysu arno wragedd Harri VIII gyda dosbarth blwyddyn 8. Er mae llenyddiaeth yn naturiol i wersi hanes, defnyddiais elfen o rifedd trwy gynnwys siart cylch i ddangos pa mor hir wnaethon nhw briod i Harri. Y peth diddorol am hyn yw dydy'r wraig sydd wedi priod i Harri am hiraf yn meddwl hi yw'r wraig bwysicaf. Trwy ddefnyddio elfen o rifedd roedd y disgyblion gallu datblygu eu sgiliau rhifedd tra hefyd edrych yn ddyfnach mewn i'r pwnc newydd, Harri VIII. Pwysleisiodd ACARA (2010) pwysigrwydd cynnwys rhifedd mewn gwersi hanes oherwydd gall y disgyblion gweld a deall cyfradd newid yn hanes. Byddaf yn parhau datblygu sgiliau rhifedd yn y gwersi trwy gynnwys llinellau amser, graffiau ac ystadegau i helpu dealltwriaeth gwybodaeth pwnc hefyd.

Enghraifft 2

Taflen Ymchwili Whitechapel

Beth oedd amodau byw fel yn Whitechapel?

Pa fath o bobl oedd yn byw yna? Beth oeddent nhw'n gweud am waith?

Cwestiynau ac atebion chi:



Cynllun Gwers

Gwers Hanes Blwyddyn 9 – 14/11/2019

I gael mewnwelediad gwahanol a gwell o Whitechapel wnes i archebu ystafell cyfrifiaduron i ddosbarth blwyddyn 9. Cawson nhw'r siawns i ddatblygu sgiliau digidol trwy weithio yn annibynnol i edrych amdano ffeithiau ychwanegol gallant nhw roi yn eu haseniad. Ymhellach, rhoddais daflen iddyn nhw ddilyn er mwyn sicrhau roedd pawb yn gwybod beth i ymchwilio. Mae datblygu sgiliau yma yn hollol bwysig oherwydd dyma'r sgil sydd eisiau ar gyfer swyddi nawr yn y byd modern. Mae'n glir cyfrifoldeb pob athro yw datblygu sgiliau cymhwysedd digidol. Serch hynny, dwi'n lwcus i fod yn ysgol X sydd gyda llawer o ystafell cyfrifiaduron a gliniaduron. Bydd datblygu cymhwysedd digidol yn her os nad ydy'r ysgol gallu fforddio'r offer. Fodd bynnag, fel nododd EEF (2019), mae mwyafrif o ysgolion heddiw gyda'r offer i ddatblygu cymhwysedd digidol felly does dim esgus i beidio â chynnwys hyn yn y gwersi.

Enghraifft 3



Cynllun gwers

Gwers Hanes Blwyddyn 8 – 5/12/2019

I ddatblygu llythrennedd y plant rhaid sicrhau eu darllen, darllen ar lafar yn gwella yn ogystal â'i hysgrifennu. Fel nododd Donaldson (2015, 42), llythrennedd yw "iaith lafar, cystrawen a sillafu". Yn y wers yma wnes i gael y disgyblion i feddwl am resymau wnaeth Harri briod gymaint â chreu map meddwl o'r rhesymau. Trwy feddwl yn feirniadol, wnaethon ni trafod eu rhesymau ar lafar fel dosbarth i weld barn pawb a rhannu ei syniadau

Darnau Darllen Gwragedd Harri VIII

Catrin o Aragon:

Cefais y cam fwyaf!! Buon ni yn briod am 24 mlynedd ac yn sydyn dyma Harri yn dewis cael ysgariad! Roedd yn sioc enfawr! Nid oedd Harri wedi wneud rhywbeth fel hyn o'r blaen.

Ann Boleyn:

Myfi oedd y cyntaf i dioddef cosb mor eithafol. Torri fy mhen i ffwrdd oherwydd fy mod i ddim yn wraig ffyddlon! Byddai ysgariad wedi gwneud y tro!!


er mwyn sicrhau bod gan bawb amrywiaeth o resymau.

Er gwers gyntaf o'r uned newydd, Harri VIII roedd y plant yn gwybod llawer yn barod amdano Harri a'i wragedd. Ar ddiwedd y wers fe wnes i greu gem 'pwy yw pwy?', darllenodd 6 disgybl darnau allan i'r dosbarth tra bod gweddill o'r dosbarth gorfod dyfalu pa wraig sy'n siarad. Wnaeth hyn cael pawb i gyfrannu ac roedd yn hwylus i'r plant. Trwy dasgau yma i gyd yn y wers, datblygodd y disgyblion sgiliau llythrennedd tra hefyd gwella eu gwybodaeth am hanes.

Hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a’r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM

Enghraifft 1



Tân Cyflym
atebion

Gwers Hanes Blwyddyn 8 – 5/11/2019

Yn y wers yma gyda Blwyddyn 8 Ystwyth fe wnes i gynnwys amrywiaeth o strategaethau sy'n datblygu sgiliau datrys problemau, meddwl yn feirniadol a chreadigol. Gan dyma'r wers gyntaf gyda'r dosbarth wnes i drafod gyda fy mentor i weld pa fath o addysgu oedd yn gweithio gyda'r dosbarth ac o ganlyniad penderfynais i greu tasg Tân Cyflym. Wnaeth y gêm dal diddordeb oherwydd roedd y gystadleuaeth yn ffocysu'r disgyblion. Pwysleisiodd Niederle a Vesterlun (2011) bod bachgen yn gweithio'n well mewn cystadleuaeth felly defnyddiais y dull yma. Gwelais roedd y plant eisiau dysgu er mwyn ennill y gystadleuaeth felly roedd yn ddull da gyda'r dosbarth yma ond, credaf bydd y dasg yma yn rhy hawdd i'r setiau uwch. Felly, wnes i wneud hyn fel cychwynnol gyda'r dosbarth arall i atgoffa nhw o'r wybodaeth ond mewn ffordd sydd yn dal eu sylw. Fel gwelir o'r adborth cefais, mae rhaid i mi sicrhau bod pawb yn dawel tra bod dwi'n esbonio'r dasg er mwyn wneud yn siŵr mae pawb yn deall. Rhaid cofio bydd y disgyblion yn gyffrous i ddechrau'r gêm felly efallai na fyddent yn hollol gwrando.

Enghraifft 2



Cynllun
gwers

Gwers Hanes Blwyddyn 8 - 19/11/2019

Ym mhob gwers rwyf yn ceisio sicrhau dal cael sylw'r plant ar ddiwedd y wers felly dwi'n creu sesiwn gloi sy'n ddiddorol a chael y plant i gymryd rhan. Ar ddechrau PAP 1 wnes i chwarae SPLAT gyda'r dosbarthiadau lle'r oedd ddoe disgybl yn ateb y cwestiwn ar y bwrdd gwyn trwy fwrw'r ateb cywir. Gwelais o hyn roedd pawb eisiau cymryd rhan felly i sicrhau pawb cael y siawns wnes i addasu'r strategaeth. Nawr roedd datganiad yn ymddangos ar y bwrdd gwyn ac roedd rhaid i bawb symud i un ochr o'r dosbarth er mwyn ymateb i'r datganiad. Ar ôl hynny roedd rhaid iddyn nhw gyfiawnhau pam dewisodd yr ochr yna. Trwy hyn, nid yn unig cafodd pawb y siawns i symud a chymryd rhan ond hefyd roedd rhaid iddyn nhw'n meddwl yn feirniadol i gyfiawnhau eu rhesymau. Wnaeth y plant mwynhau esbonio sut wnaeth Harri Tudur teimlo trwy'r ffordd rydyn nhw'n mynegi ei hunain heddiw – emojis. Wrth ddefnyddio strategaeth sy'n drosglwyddadwy iddynt, wnaethon nhw ddatblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a chreadigol tra hefyd dysgu am wybodaeth y pwnc.

Sesiwn
Gloi

Esboniwyd i'r disgyblion bydd datganiad ar y bwrdd ac rhaid iddyn nhw mynd i un ochr o'r ystafell i ddangos eu barn. Bydd yn ochr am Harri yn haeddu ennill a'r ochr arall o'r ystafell am Richard yn haeddu ennill. Byddai'n gofyn pam dewisodd yr ochr yma – ymestyn eu hatebion.

Disgyblion i fynd i un ochr o'r dosbarth er mwyn ymateb l'r datganiad ar y bwrdd. Rhaid i'r plant cyfiawnhau eu rhesymau am fod ochr yna o'r dosbarth.

PowerPoint,

I&D:
Sicrhewch fod bagiau i ffwrdd o dan fyrddau.

Enghraifft 3


Nadroedd
ac ysgolio...



Gwers Hanes Blwyddyn 8 – 21/11/2019

Erbyn y wers yma roedd rhaid i mi wneud sesiwn adolygu gyda dosbarthiadau blwyddyn 8 i baratoi nhw am eu haseiniad. Wrth greu nadroedd ac ysgolion wnes i sbarduno'r disgyblion i eisiau dysgu mwy. O ganlyniad i'r gêm caniatodd hyn i herio'r disgyblion tra hefyd cynnal eu hymgysylltiad. Roedd hwn yn llwyddiant mawr gan eto roedd y gystadleuaeth wedi gwthio pawb i gyfrannu wrth ddysgu er mwyn ennill y gêm. Trwy beidio â defnyddio eu llyfrau i helpu ateb y cwestiynau, roedd rhaid meddwl yn feirniadol a datrys problemau. Wrth ddefnyddio dulliau o sbarduno meddwl dwfn gwybyddol (OECD, 2019) wnaeth y disgyblion dysgu'r wybodaeth yn ogystal â sgiliau bywyd. Ymhellach, roedd y disgyblion gallu dewis pa mor galed o gwestiynau oedden nhw eisiau wneud. Rhoddodd hyn y siawns i bawb gweithio mewn cyflymder eu hunain tra hefyd rhoi her i rai eraill. Rheswm arall efallai wnaeth hyn weithio oherwydd dywedodd William (2010) mae'r ymennydd dynol yn barod ar gyfer rhyngweithio a chyfleoedd i gyd-adeiladu gwybodaeth. Mae'n amlwg rhaid cael tasgau sy'n sbarduno'r plant a thynnu sylw nhw i sicrhau cynnydd yn eu gwaith a dealltwriaeth gwybodaeth pwnc, yn ogystal â datblygu'r sgiliau ychwanegol.

Adfyfyriad beirniadol

Tuesday, December 10, 2019 1:50 PM

Yn yr aseiniad hon byddaf yn adlewyrchu ar fy mhrofiad addysgu broffesiynol yn Ysgol X trwy ffocysu ar egwyddorion addysgeg Donaldson yn ei adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (2015). Byddaf yn canolbwyntio yn enwedig ar asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a hybu sgiliau datrys problemau, creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol. Dewiswyd y tair egwyddor addysgeg yma oherwydd mae'n berthnasol i fy mhwnc a strategaethau addysgu. Nododd Ken Robinson a Lou Aronica (2016) bod rôl yr athro yw creu'r amodau gorau i'r plant dyfu. Trwy fyfyrio beirniadol ac adlewyrchu'r llenyddiaeth amdano'r tair egwyddor, byddaf yn dangos cynnydd mewn fy mhrofiad addysgu broffesiynol a sicrhau y rwyf yn creu'r amgylchedd ac addysgu gorau i helpu'r disgyblion tyfu.

Diffiniodd Coe et al (2014) addysgu effeithiol yw un sy'n arwain at gyflawniad gwell myfyrwyr gan ddefnyddio canlyniadau sydd o bwys i'w llwyddiant yn y dyfodol. Mae'n amlwg o hyn pam mae'r cwricwlwm newydd yn ffocysu ar fwy o sgiliau sy'n gallu paratoi nhw ar gyfer bywyd fel oedolyn. Dywedodd Donaldson (2015) rhaid i addysgu a dysgu i gyd cyfeirio at gyflawni'r pedwar diben. Dylai athrawon gymhwyso'r egwyddorion addysgeg wrth gynllunio eu haddysgu a'u dysgu er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n uniongyrchol gysylltiedig â dibenion y cwricwlwm. Mae'n amlwg bod addysgu a dysgu effeithiol angen dealltwriaeth well o'r cwricwlwm a rolau'r ddau asesiad ffurfiannol a chrynodol. Mae elfennau addysgu da yn cynnwys amrywiol o ffyrdd er enghraifft, arbenigedd pwnc, dealltwriaeth o'r ffactorau cymdeithasol a seicolegol sy'n dylanwadu ar ddysgu a'r gallu i ysbrydoli disgyblion i eisiau dysgu a dysgu'n annibynnol.

Mae asesiad yn gyfannol i ddysgu effeithiol felly does dim amheuaeth bod asesu ar gyfer dysgu yn un o'r egwyddorion addysgeg Donaldson (2015). Nododd Llywodraeth Cymru (2015) mae asesiad yn rhan hanfodol ar gyfer dysgu ac addysgu. Trwy asesiad mae athrawon yn gweld sut mae'r disgyblion yn cynyddu yn eu gwaith a phan fydd angen help ychwanegol a'r disgyblion. Mae hyn hefyd yn helpu dangos ble mae'r ysgol angen gwella. Dywedodd Black et al (2003) bod asesiad ffurfiannol yn broses lle mae gwybodaeth am ddysgu yn cael ei ddefnyddio i addasu'r gweithgareddau addysgu a dysgu. Ar y llaw arall mae rhai yn disgrifio asesiad ffurfiannol fel 'tool that teachers use to measure student grasp' (Khal, 2005, t.11). Mae angen dealltwriaeth glir o beth sydd angen dysgu a ffyrdd o gasglu tystiolaeth am gyflawniad er mwyn i asesu bod yn dda (Donaldson, 2015). Trwy gynnwys disgyblion mewn eu hasesu, byddwn annog nhw i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain (Donaldson, 2015).

Yn ôl Donaldson (2015), mae asesu ar gyfer dysgu yn cynnwys darparu adborth ystyrlon ac addasu addysgu i ddiwallu anghenion unigolion. Ymhellach, mae'n helpu disgyblion i godi safonau a meithrin uchelgais – gall addysgu bod yn bwerus iawn pan roddir adborth i'r disgyblion trwy roi arweiniad iddynt ar y camau nesaf. Mae'n glir fel nododd Gweinidog Addysg Seland Newydd (ar-lein) dylai arfer asesu da nodi pa gamau addysgu a dysgu nesaf y gellir eu cyflawni. Pwysleisiodd Dylan Wiliam (2010) hyn hefyd wrth awgrymu bod asesu effeithiol yn gallu 'ddyblu' y gyfradd ddysgu. Nododd Wiliam (2010) pellach bod gweithredu asesu ar gyfer dysgu yn syml trwy ymgorffori yn gyson mewn ymarfer dosbarth. Mae nifer o newidiadau wedi digwydd i asesiad ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn dilyn cyhoeddi Llwybrau Dysgu, rhoddodd Cymru'r prif gyfrifoldeb i

athrawon am asesiad disgyblion hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (Daugherty et al., 2004). Disgrifiodd Wiliam (2010) bod asesu fel y bont rhwng addysgu a dysgu. Felly, dylaf asesu ffurfiannol fod yn rhan hanfodol o'r broses addysgu. Mae Donaldson (2015) yn nodi felly mae hunanasesu yn ffordd bwysig o helpu disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb oherwydd weithiau gallant nodi meysydd anhawster na fyddai athro yn eu gweld yn hawdd.

Mae'r egwyddorion addysgeg cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn hollol bwysig oherwydd rydym yn byw mewn byd sydd yn newid yn gyflym. Mae gennym ni datblygiadau newydd mewn gwyddoniaeth/ymchwil a thechnoleg sydd angen sgiliau newydd (Donaldson, 2015). Rhaid i'r disgyblion a'r athrawon cadw lan gyda'r newidiadau cryf. Felly, mae'n amlwg bod cyfrifoldeb gan bob athro am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol gwaeth beth fo'u pwnc. Cred Donaldson (2015) mae rhain mor sylfaenol i fywyd, dylid eu datblygu a'u hatgyfnerthu ar draws y cwricwlwm yn ei gyfanrwydd. Yn amlwg wrth hyn, mae'r elfennau trawsgwricwlaidd yn cydbblethu gyda'i gilydd. Pwysleisiodd Donaldson (2015) dylai llythrennedd a rhifedd olygu mwy na chymhwysedd sylfaenol a rhaid iddynt gydnabod eu rôl ganolog i ddefnyddio iaith a rhif yn hyderus ac yn greadigol. Nododd Donaldson (2015) mae yna berygl gwirioneddol ein bod yn dysgu mecaneg o ysgrifennu ond nid ydyn yn rhoi dim byd i'r disgyblion i ysgrifennu amdano. Mae angen cyfle ar ddisgyblion i feddwl, archwilio a thrafod syniadau a defnyddio sgiliau iaith. Defnyddiodd rhifedd, gan gynnwys sgiliau rhifydddeg a thrin data, ar draws y cwricwlwm oherwydd mae cymhwysedd mewn rhifedd yn hanfodol ar gyfer byw a gweithio yn annibynnol (Donaldson, 2015).

O ran cymhwysedd digidol, mae'r plant a phobl ifanc nawr yn byw mewn byd digidol ac mae eu bywydau personol, cymdeithasol ac addysgol yn cydbblethu fwy â thechnoleg mewn amrywiol ffurfiau. Mae cyfranogiad llawn yn y gymdeithas fodern a'r gweithle eisoes yn gofyn am lefelau cynyddol uchel o gymhwysedd digidol ac fel nododd Donaldson (2015), gall y broses hon barhau mewn dyfodol na allwn ei ddychmygu. Yn yr un modd, galwyd Cowen (2013) yr oes yma'r oes peiriannau athrylith a fydd y bobl sy'n gweithio gyda nhw yn codi. Byddwn ni'n felly cynhyrchu dwy genedl, un sydd yn genedl lwyddiannus yn gweithio yn yr adrannau technolegol ac wedyn phawb arall (Cowen, 2013). Mae'n amlwg felly rhaid i blant dysgu sut i fod yn fwy na defnyddwyr technoleg a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i fod aelodau dyfodol o'r gweithle technegol. Dylai'r cwricwlwm sicrhau bod disgyblion yn datblygu lefelau uchel o'r tri chymhwysedd a chael cyfleoedd aml i'w datblygu ar draws y cwricwlwm (Donaldson, 2015). Mae cymhwysedd mewn llythrennedd, gan gynnwys cymhwysedd ar lafar, cystrawen a sillafu, yn gynfodol ar gyfer dysgu ar draws y cwricwlwm (Donaldson, 2015). Mae Blake a Blake (2002, t.1) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd llythrennedd gan nodi 'literacy is at the heart of world development and human rights'.

Serch hynny, bydd y trawsgwricwlaidd yn cael goblygiadau eang i addysgu. Y broblem amlwg yw gall prynu'r offer fod yn ddrud iawn fodd bynnag, nododd EEF (2019) er mae technoleg ddigidol yn ddrud, mae mwyafrif o ysgolion gyda chyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol. Ymhellach, rhaid i'r athrawon dysgu sut i ddefnyddio'r offer newydd sy'n gallu cymryd llawer o amser (EEF, 2019). Mae'r OECD (2019) yn cytuno a rhain gan nodi mae rhai addysgwyr yn ofni bydd y pwyslais ar y sgiliau yma yn cymryd drosodd gwybodaeth pwnc. Mae eraill wedyn yn ofni am amseru – gall projectau cymryd gormod o amser felly bydd yn anodd cynnwys o fewn addysgu (OECD, 2019).

Mae'r galw am bobl ifanc sydd â lefelau gwell o lythrennedd, rhifedd a sgiliau ehangach, gan gynnwys meddwl yn feirniadol, creadigol a datrys problemau, wedi hybu tuedd ryngwladol tuag at y cwricwlwm newydd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau (Donaldson, 2015). Mae'r sgiliau yma'n cynnwys hyder personol, iechyd a lles y disgyblion. Cydnabyddid Llywodraeth Cymru (2015) pwysigrwydd hyn i sicrhau gall plant delio yn well â'r heriau newidiol sy'n wynebu unigolion nawr ac yn y dyfodol. Nododd Lucas (2019) mae'r amaethiad creadigrwydd a meddwl beirniadol mewn ysgolion yn anelu at ddatblygu'r sgiliau hyn ar gyfer lleoliad yn y byd go iawn. Mae'n ddiddorol weld casgliad Parsons a Beauchamps (2012), bod y mwyafrif o wledydd sy'n perfformio'n arbennig yn tynnu sylw at ddatrys problemau, meddwl yn creadigol ac yn feirniadol. Yn ogystal, o 2016 cydnabyddedig dros 50 o wledydd ledled sgiliau tu hwnt i lythrennedd a rhifedd ar draws pynciau – creadigrwydd a meddwl yn feirniadol oedd y rhai a nodwyd amlaf gyda chyfathrebu (Care, Anderson a Kim, 2016). Mae'n glir bod gan creadigrwydd a meddwl beirniadol le ym mhob pwnc yng nghwricwlwm yr ysgol.

Dywedodd Donaldson (2015) bod yr egwyddorion addysgeg yma mynd i actifadu dysgu mor bwerus ar gyfer disgyblion. Trwy roi mwy o ryddfaint, bydd mwy o gyfleoedd am benderfynu creadigol. Serch hynny, nid oes gan lawer o athrawon model ymarferol o beth yw creadigrwydd a meddwl beirniadol yn ymarferol a'r hyder addysgeg angenrheidiol i addysgu nhw yng nghyd-destun eu hysgol (OECD, 2019). Er mwyn ymgysylltu'n llawn â dysgu, nododd Donaldson (2015) mae angen amgylcheddau cyfoethog, ysgogol ar ddisgyblion lle gallant archwilio ac arbrofi gyda syniadau ac adnoddau trwy wneud cysylltiadau unigryw. Dibynnwyd creadigrwydd yma'n fawr ar fynediad at wybodaeth ddilys o ansawdd uchel sy'n gweithredu fel catalydd ar gyfer arloesi.

Ar ddechrau PAP rhan 1, ni sylweddolais pa mor aml neu'n naturiol bydd asesu'r disgyblion. Mae pwysigrwydd asesu ac adborth yn glir gan nododd EEF (2019) bod adborth effeithiol yn cael effaith uchel iawn ar ddysgu disgyblion. Fel gwelir yn enghraifft 1 am asesu ar gyfer dysgu, gwiriais yn barhaus os oedd pawb yn deall yr aseiniad trwy fynd dros bob paragraff cam wrth gam. Ymhellach, rhoddais daflen meini prawf llwyddiant i sicrhau roedd gan bob disgybl nodyn atgoffa parhaus i wneud yn siŵr roedden yn cwblhau'r dasg yn gywir. Wnaeth hyn datblygu gweithio'n annibynnol oherwydd cyfrifoldeb y disgyblion oedd gwirio a dilyn strwythur yr aseiniad. Ar ddiwedd yr esboniad gofynnais i roi bodiau i fyny os rydyn nhw'n deall popeth neu i lawr os dydyn nhw ddim yn deall beth i'w wneud. I'r rhai oedd yn dal ansicr wnes i fynd trwyddo bethau gyda nhw tra cychwynnodd eraill yr aseiniad. Fodd bynnag, dydy hyn pob amser ddim yn dangos bod pawb yn deall oherwydd efallai gallwn roi bodia i fyny os oeddent yn teimlo gormod o gywilydd o ddim deall y dasg. Yn y dyfodol gallaf osgoi hyn trwy gerdded o gwmpas y dosbarth ac asesu'r plant trwy edrych ar eu gwaith. Ymhellach yn lle gofyn cwestiynau agored a chaeedig am yr aseiniad a'r plant gwirfoddoli i ateb, gallai dewis disgyblion i ateb er mwyn sicrhau hyd yn oed y disgyblion sy'n fel arfer yn dawel yn deall.

Ar ddechrau gwersi dwi'n asesu faint a beth mae'r disgyblion yn cofio dysgu o'r wers ddiwethaf trwy greu nodiadau 'sticky'. Rhaid i'r disgyblion ysgrifennu tri pheth ddysgon nhw o wers ddiwethaf. Wrth wneud hyn gwelais sefyllfa'r dosbarth sydd wedyn yn dangos os mae rhaid i mi addasu fy ngwers. Wnes i ddefnyddio'r dull yma oherwydd fel nododd Black et al (2003) gallwn addasu'r gweithgareddau addysgu a dysgu trwy asesiad ffurfiannol. Serch hynny, nad oedd pawb yn gwirfoddoli i roi eu hateb. Er gall hyn fod am ddiffyg hyder, yn y dyfodol byddaf yn dewis disgyblion ar hap i rannu beth ysgrifennon nhw er mwyn weld dealltwriaeth pawb. Wrth i PAP datblygu cerddais yn fwy aml o gwmpas y dosbarth er mwyn asesu'r disgyblion i weld nhw ar dasg.

Ymhellach, rhoddais amserydd ar y bwrdd i annog disgyblion i orffen y dasg wrth roi ffocws arnynt. Byddaf yn parhau defnyddio'r dull yma oherwydd wnaeth hyn cadw pawb ar dasg. Pwysleisiodd Deskin (2013) pwysigrwydd defnyddio amserydd gan ddweud rhaid atgoffa plant o'r dasg oherwydd yn aml rydyn nhw'n anghofio beth sydd rhaid cyflawni neu maen nhw'n colli trywydd amser. Wnaeth amserydd ar y bwrdd datrys y broblem hon trwy roi her i'r disgyblion.

O ddechrau fy lleoliad roedd gen i ddealltwriaeth dda o'r pwysigrwydd cwrwllwm trawsgwricwlaidd ond nid oedd gen i lawer o syniad fel i gyflawni'r rhain yn y gwersi sy'n cefnogi pwynt OECD (2019) mae athrawon yn ddiffyg model ymarferol. Wrth i'r lleoliad datblygu, wnes i sylweddoli roedd llythrennedd yn aml naturiol wrth i'r disgyblion darllen, ysgrifennu a hyd yn oed esbonio eu hatebion a syniadau ar lafar. Er enghraifft, ar ôl i'r plant creu map meddwl am wragedd Harri VIII a thrafod eu hatebion fel dosbarth, wnes i greu gem 'pwy yw pwy?' - darllenodd chwe disgybl darnau allan i'r dosbarth tra bod gweddill gorfod dyfalu pa wraig sy'n siarad. Wnes i sicrhau roedd iaith lafar yn ogystal ag ysgrifennu yn y wers oherwydd nododd Donaldson (2015, t.42), mae llythrennedd yn cynnwys "iaith lafar, cystrawen a sillafu". Datblygodd y disgyblion sgiliau llythrennedd tra hefyd gwella eu gwybodaeth am hanes. Fodd bynnag, roedd gen i blant gyda dyslecsia felly ar gyfer gwaith darllen wnes i roi taflennu glas golau i helpu ddarllen. Ar ddechrau fy lleoliad doeddwn i ddim yn siŵr eto o enwau neu wynebau'r plant felly roeddwn galed rhoi'r papur gwahanol heb iddynt fod yn amlwg. Wrth i'r lleoliad fynd ymlaen wnaeth hyn gwella trwy ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r plant.

Daeth rhifedd yn fwy hawdd i gydbblethu yn y gwersi trwy sicrhau roedd cwestiynau mathemateg i weithio allan yn lle darllen rhifau ar daflen gwybodaeth. O ganlyniad roedd y disgyblion yn meddwl mwy a sicrhawyd eu sylw yn y wers. Dywedodd Donaldson (2015) mae'r allwedd i ddatblygu'r sgiliau hyn yw nid trwy ailadrodd a drilio am gyfnodau ystod y dydd ond mewn dealltwriaeth o'u cydrannau hanfodol a gefnogir gan addysgu a dysgu a gellir eu hatgyfnerthu a'i gymhwyso. Ar gyfer wers Harri VIII a'i wragedd dangosais y cyfnod roeddent yn briod am mewn ffyrdd gwahanol – siart cylch. Roedd hyn yn ddiddorol i'r plant oherwydd trwy weld yn weledol gallwn ddweud y wraig bwysicaf oedd yr un hirach ond nid yw hyn yn wir. Pwysleisiodd ACARA (2010) pwysigrwydd o gynnwys rhifedd yn wersi hanes oherwydd mae'n cynyddu dealltwriaeth gyfradd newid yn hanes. Wnaeth y disgyblion datblygu eu sgiliau rhifedd tra hefyd dysgu am wybodaeth pwnc.

Gyda'r dechnoleg sydd gennym heddiw mae'n bwysig i ddefnyddio ystod wersi er mwyn helpu gwella dealltwriaeth dysgu. Mae tystiolaeth yn awgrymu dylai cymhwysedd digidol cael ei ddefnyddio i ategu addysgu arall, yn lle disodli dulliau traddodiadol (EEF, 2019). Trwy ymchwilio ar y we, gwylio rhaglen dogfen a chlipiau mae'n cynnig mewnwelediad gwahanol o ddigwyddiadau. Er enghraifft, gyda dosbarth blwyddyn 9 wnes i archebu ystafell gyfrifiaduron. Fel nododd EEF (2019) mae mwyafrif o ysgolion heddiw gyda'r offer i ddatblygu cymhwysedd digidol felly nid yw'n gymaint o her ag rhai yn feddwl. Trwy greu taflen gwaith gyda chwestiynau i'r plant ymchwilio ac ateb, roedd y disgyblion gallu gweithio'n annibynnol a chasglu gwybodaeth am Whitechapel a Jack the ripper. Roedd hyn yn llwyddiannus i gasglu gwybodaeth er mwyn helpu nhw yn eu haseiniad. Fodd bynnag, roedd yr ystafell yn fawr iawn felly roedd yn galed i sicrhau sylw pawb pob amser. I gadw plant ar y trywydd iawn gallaf roi gwefannau penodol oedd gyda gwybodaeth er mwyn sicrhau bod gan bawb gwybodaeth gywir a dibynadwy.

Rwy'n ymwybodol bod llawer o blant yn teimlo bod hanes yn ddiflas oherwydd mae llawer o ysgrifennu a

darllen fodd bynnag, roeddwn i'n gobeithio newid hyn wrth addysgu gwersi sy'n hyrwyddo datrys problemau, meddwl yn greadigol ac yn feirniadol. I gloi gwersi roeddwn i'n aml chwarae SPLAT gyda'r dosbarth lle'r oedd ddod disgybl gorfod ateb y cwestiwn ar y bwrdd trwy fwrw'r ateb, y cyflymaf sy'n ennill. Wnaeth hyn cael y disgyblion i feddwl yn feirniadol mewn ffordd greadigol. Fodd bynnag, gwelais dim ond y ddod disgybl oedd yn cyfrannu ar y tro, er roedd pawb eisiau cyfrannu. Wrth i PAP datblygu gwnes i addasu hyn i ddefnyddio'r holl ddosbarth. Yn lle bwrw ateb ar y bwrdd, mae rhaid i bawb cyfrannu wrth symud i un ochr o'r dosbarth er mwyn ymateb i'r datganiad ar y bwrdd. Roedd hyn yn well oherwydd wnaeth pawb cymryd rhan, a chyfiawnhau eu rheswm i fynd i'r ochr yna. Rhoddodd hyn y siawns hefyd i'r disgyblion sy'n fel arfer yn dawel i roi eu barn. Nododd OECD (2019) mae gan dasgau sy'n creu cyfleoedd i gymryd rhan mewn meddwl yn greadigol ac yn feirniadol natur agored gydag ymgysylltu cymhleth a meddwl agored. Wrth addasu'r dasg roedd cyfle i bawb datblygu'n meddwl yn greadigol a feirniadol trwy ddatrys problemau.

Ffordd arall o weithredu hyn oedd trwy greu gêm Tân Cyflym. Mae'n hysbys bod bachgen yn gweithio'n well mewn cystadleuaeth (Niederle a Vesterlun, 2011). Ymhellach, nododd OECD (2019) mae gweithgareddau cymhELLO yn cynyddu posibiliadau ar gyfer dysgu. Felly, wrth i leoliad datblygu gwnaeth fy nghynlluniau gwersi datblygu i sicrhau roeddwn sbarduno chwilfrydedd ac ymgysylltiad disgyblion trwy gysylltu pynciau sy'n ymwneud a diddordeb eu hunain fel Tân Cyflym. Wrth gael cwestiwn yr un yn barau roedd rhaid iddyn nhw weithio allan yr ateb a rhoi'r ateb cywir nôl er mwyn cael y cwestiwn nesaf. Gweithiodd hyn yn dda gan gyfrannodd pawb at y dasg oherwydd roeddwn eisiau dysgu er mwyn ennill y gêm. Hyd yn oed ar ôl i'r gêm gorffen wnaethon ni mynd trwyddo'r atebion fel dosbarth i sicrhau roedd gan bawb y wybodaeth gywir. Serch hynny, rhaid cofio gall rhai darllen ac ysgrifennu yn gyflymach felly efallai bydd rhai disgyblion yn teimlo'n chwithigo o orffen yn ddiweddarach nag eraill. I ddatblygu hyn ar gyfer dosbarthiadau arall sydd gyda gallu mwy uchel, wnes i hyn fel cychwynnol er mwyn tynnu sylw'r plant i gyd am y wers.

Tuag at ddiwedd PAP roedd angen adolygu ar gyfer yr aseiniad blwyddyn 8. Wrth i'r lleoliad ddatblygu des i yn gyfarwydd mwy gyda'r plant a'r dulliau oedd yn gweithio gyda nhw. Gyda fy nosbarth blwyddyn 8 set 6, sylweddolais y ffordd gorau iddyn nhw ddysgu oedd cael adnoddau ar y ddesg iddyn nhw allu cyffwrdd a symud. Trwy greu gêm nadroedd ac ysgolion caniatodd hyn i herio'r disgyblion tra hefyd cynnal eu hymgysylltiad. Roedd hwn yn llwyddiant mawr gan eto roedd y gystadleuaeth wedi gwrthio pawb i gyfrannu wrth ddysgu er mwyn ennill y gêm. Trwy beidio â defnyddio eu llyfrau i helpu ateb y cwestiynau, roedd rhaid meddwl yn feirniadol a datrys problemau. Fel nododd OECD (2019), wrth ddefnyddio dulliau o sbarduno meddwl dwfn gwybyddol, wnaeth y disgyblion dysgu'r wybodaeth yn ogystal â sgiliau bywyd. Roedd y disgyblion gallu dewis pa mor galed o gwestiynau oedden nhw eisiau wneud. Rhoddodd hyn y siawns i bawb gweithio mewn cyflymder eu hunain tra hefyd rhoi her iddyn nhw. Rheswm arall efallai wnaeth hyn weithio oherwydd dywedodd Wiliam (2010) mae'r ymennydd dynol yn barod ar gyfer rhyngweithio a chyfleoedd i gyd-adeiladu gwybodaeth. Byddaf yn bendant parhau'r dull yma.

Bydd fy natblygiad yn y tair egwyddor bedagogaid yn broses barhaus trwy gydol fy ngyrfa addysgu. Fodd bynnag, rwyf angen barhau gwneud cynnydd yn y meysydd cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn enwedig oherwydd mae'n bwysigrwydd yn hollol glir. Wrth fyw mewn byd sy'n newid yn barhaus ac yn gyflym rhaid newid ein strategaethau addysgu a'r sgiliau rydyn ni'n dysgu. Er hanes yw fy mhwnic arbenigol, mae gen i gyfrifoldeb

nawr i sicrhau bod disgyblion hefyd yn datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Er mae llythrennedd yn cydbblethu'n naturiol mewn gwersi hanes, bydd cynnwys rhifedd a chymhwysedd digidol yn her. Rwyf yn lwcus yn Ysgol X wrth gael lawer o ystafelloedd cyfrifiaduron a llyfrau crôm wrth law. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi gynnwys yr elfen ddigidol yn fy ngwersi er mwyn datblygu'r sgil ond hefyd gwella dealltwriaeth gwybodaeth y pwnc mewn ffordd wahanol. Fel dywedodd Barnes (2015), dydy'r addysg ar hyn o bryd ddim digon da i helpu disgyblion llwyddo a byw bywydau boddhaus trwy'r unfed ganrif ar hugain felly, rhaid newid hyn. Ar gyfer rhifedd, byddaf yn parhau gwneud cynnydd trwy adeiladu a dehongli llinellau amser, graffiau, tablau, ystadegau i helpu gwneud synnwyr o'r gorffennol (ACARA, 2010). Trwy ddefnyddio rhifedd yn wersi hanes bydd y disgyblion gallu esbonio treigl amser, achosion amryfal, cyfradd y newid ac arsylwi patrymau o newid (ACARA, 2010). Edrychaf ymlaen at barhau gwella fy addysgu yn enwedig yn y meysydd trawsgwricwlaidd trwy ddilyn y wybodaeth wnes i ddarganfod.

- Australian Curriculum, Assessment and Reporting Authority (ACARA), (2010) [Online] Available at: www.australiancurriculum.edu.au [Accessed: 1 January 2020]
- Barnes, J. (2015). *Cross-Curricular learning 3-14*. Third Ed. Los Angeles: SAGE
- Black, P. a Wiliam, D., (2005) *Inside the Black Box: Raising Standards through classroom assessment*, London: Granada Learning.
- Black, P., et al. (2003) *Assessment for Learning: Putting it into practice*. England: Open University Press
- Care, E., K. Anderson, and H. Kim (2016), *Visualizing the breadth of skills movement across education systems*. Washington, DC: The Brookings Institution.
- Coe, R et al., (2014), *What Makes Great Teaching?* [Online] Available at: <https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2014/10/What-Makes-Great-Teaching-REPORT.pdf> [Accessed: 26 December 2019]
- Cowen, T. (2013), *Average is Over: Powering America Beyond the Age of the Great Stagnation*. New York: Penguin Group.
- Deskin, B. (2013), *The Benefits of Using a Visual Timer for Children with Special Needs* [Online]. Available at: <https://www.friendshipcircle.org/blog/2013/01/28/the-benefits-of-using-a-visual-timers-for-children-with-special-needs/> [Accessed: 28 December 2019]
- Daugherty, R. et al. (2004) *Learning Pathways through statutory assessment: Key Stages 2 and 3*. Final Report of the Daugherty Assessment Review Group, Cardiff: WAG.
- Donaldson, G. (2015), *Successful Futures* [Online]. Available at: https://dera.ioe.ac.uk/22165/2/150225-successful-futures-en_Redacted.pdf [Accessed: 28 December 2019]

- Education Endowment Foundation (EEF). (2019) *Digital Technology* [Online] Available at: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/generate/?u=https://educationendowmentfoundation.org.uk/pdf/toolkit/?id=134&t=Teaching%20and%20Learning%20Toolkit&e=134&s=> [Accessed: 27 December 2019]
- Gweinidog Addysg Seland Newydd. *Principles of assessment for learning* [Online]. Available at: <http://assessment.tki.org.nz/Assessment-for-learning/Underlying-principles-of-assessment-for-learning/Principles-of-assessment-for-learning> [Accessed: 1 January 2020].
- Kahl, S. (2005, 26 October). *Where in the world are formative tests? Right under your nose!* Education Week, 25(4), t.11.
- Llywodraeth Cymru (2015), *A curriculum for Wales – a curriculum for life*. [Online] Available at: https://dera.ioe.ac.uk/24680/1/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-en_Redacted.pdf [Accessed: 26 December 2019]
- Lucas, B. (2019), *Why we need to stop talking about twenty-first century skills*, Centre for Strategic Education: Melbourne.
- Niederle, M. Vesterlun, L. (2011), *Gender and Competition*, Annual Review of Economics, 3(1), tt.601-630, Available at: <https://web.stanford.edu/~niederle/NV.AnnualReview.Print.pdf> [Accessed: 28 December 2019].
- OECD (2005) *Teachers Matter: Attracting, Developing and Retaining Effective Teachers*. Paris: OECD.
- Parsons, J. a Beauchamps, L. (2012) *Leadership in Effective Elementary Schools: A Synthesis of Five Case Studies* [Online] Available at: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED536409.pdf> [Accessed: 1 January 2020]
- Robinson, K., a Aronica, L. (2016), *Creative Schools: The Grassroots Revolution That's Transforming Education*. Penguin Publishing Group
- Vincent-Lancrin, S., et al. (2019), *Fostering Students' Creativity and Critical Thinking: What it Means in School*, Paris: OECD [Online] Available at: <https://doi.org/10.1787/62212c37-en> Accessed: 28 December 2019
- Wiliam, D. (2010), 'The role of formative assessment in effective learning

environments', tt.135-158 in Dunmont, H., D Istance and F. Benavides (eds.)
The Nature of learning: Using Research to inspire Practise. Paris: OECD.